# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 3 Mehefin 2014** |
| Amser: | **08.30 - 09.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Lesley Griffiths**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Wilkins (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Cerian Davies, Clerc y Cyfarfod Llawn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu’r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 25 Mehefin 2014**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud)

## 4 Pwyllgorau

4.1 Gweithdrefnau ar gyfer ethol Cadeiryddion pwyllgorau

Yn ei gyfarfod ar 6 Mai 2014, trafododd y Pwyllgor Busnes gynigion ynghylch prosesau amgen posibl ar gyfer ethol Cadeiryddion pwyllgorau. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i gymryd y cynigion yn ôl i'w grwpiau er mwyn cynnal trafodaeth arnynt, ac i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod heddiw.

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes nad ydynt yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol ar hyn o bryd.

## 5 Cyllideb

5.1 Adolygiad o Broses y Gyllideb

Ysgogwyd y Pwyllgor Busnes i wneud cais am bapur yn trafod a ddylai proses y gyllideb gael ei hadolygu gan y digwyddiadau a welwyd yn sgil ystyried cyllideb yr hydref. Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2014, nododd y Rheolwyr Busnes eu cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion yn y papur. Cytunodd y rheolwyr i ddychwelyd i'r mater yn y cyfarfod heddiw, pan fyddant yn ystyried yn fanylach y cynnig i ymestyn y cyfnod sydd ar gael i bwyllgorau graffu ar y gyllideb.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y bydd y Llywydd yn ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid yn amlinellu'r materion a godwyd gan gadeiryddion y pwyllgorau ac awgrymiadau ynghylch sut y gellir gwella'r broses.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd y bydd y Llywydd yn ysgrifennu at gadeiryddion y pwyllgorau i'w hysbysu bod ganddynt yr hawl i gynnal cyfarfodydd y tu allan i'r amserlen arferol yn ystod y cyfnod craffu, unwaith y bydd yr amserlen ar gyfer craffu ar gyllideb eleni wedi'i chytuno.

Nododd y Rheolwyr Busnes ymrwymiad y Llywodraeth i gyflwyno'r gyllideb ddrafft wythnos yn gynharach eleni i ganiatáu mwy o amser ar gyfer craffu, ond roeddent yn cydnabod efallai na fyddai hynny'n bosibl y flwyddyn nesaf o ganlyniad i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gan Lywodraeth y DU. Nododd y Rheolwyr Busnes hefyd y byddai newidiadau ehangach i'r broses o graffu ar y gyllideb yn sgil adroddiad Silk yn rhan o unrhyw adolygiad.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur i'w ystyried gan y Pwyllgor Busnes yn gynnar yn 2015, yn amlinellu cynigion ar gyfer ystyriaethau'r gyllideb y flwyddyn honno.

## 6 Busnes y Cyfarfod Llawn

Nododd y Rheolwyr Busnes bapur yn amlinellu'r ffactorau sydd wedi achosi problemau yn ddiweddar yn ystod y Cyfnod Pleidleisio, a'r camau a gymerwyd gan staff y Comisiwn i'w datrys ac i'w hatal rhag digwydd eto.

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes nad ydynt ar hyn o bryd yn dymuno diwygio'r Rheolau Sefydlog fel bod angen trothwy uwch o ran gwrthwynebiadau cyn y cynhelir pleidlais drwy alw enwau.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am nodyn ar gynlluniau wrth gefn ar gyfer pleidleisio ar ddeddfwriaeth.

6.1 Pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes fod angen i'r holl Aelodau fod yn bresennol ar gyfer dechrau unrhyw eitem y maent yn bwriadu cyfrannu ati.